CADEIRYDD RHANBARTHOL CYFLOGEDIG Y TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

(CYMRU A LLOEGR)

AMLINELLIAD O'U TELERAU A'U HAMODAU GWASANAETH

1. **Cyflwyniad:** Mae'r canlynol yn grynodeb o delerau ac amodau gwasanaeth sylfaenol. Mae'r telerau a'r amodau hyn yn gywir fel ag y maent yn ymddangos ar y dyddiad a roddir ar ddiwedd y ddogfen hon, ond mae'n bosibl iddynt newid dan rai amgylchiadau. Rhoddir manylion llawnach, gan gynnwys yr amodau penodi, i ymgeiswyr y cynigir penodiad iddynt.

2. **Gwaharddiad ar Ymarfer:** Ni chaiff Cadeirydd Rhanbarthol i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ymarfer fel bargyfreithiwr na thwrnai nac ymwneud yn anuniongyrchol ag unrhyw ymarfer o'r fath (a.75 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990). Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd yn ystyried swydd farnwrol fel penodiad am oes. Bydd unrhyw benodiad yn cael ei gynnig felly ar y ddealltwriaeth na fydd y sawl a benodir yn dychwelyd i ymarfer.

3. **Cyflog, treth incwm ac Yswiriant Gwladol:** Bydd Cadeirydd Rhanbarthol yn cael cyflog o £126,400. Tynnir Treth Incwm, sy'n daladwy o dan Atodlen E, cyn trosglwyddo'r cyflog yn unol â'r trefniadau Talu Wrth Ennill. Caiff Cadeirydd Rhanbarthol ei ystyried yn "weithiwr cyflog" at ddibenion Yswiriant Gwladol ac mae'n atebol am gyfraniadau Dosbarth 1, a dynnir o'r cyflog ynghyd â threth incwm. Gan fod cynllun pensiwn y barnwyr wedi ei gontractio allan o Gynllun Pensiwn ar Sail Enillion y Wladwriaeth, telir cyfraniadau ar y gyfradd contractio allan is. Mae'r gofyniad i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn peidio ar ôl cyrraedd oed ymddeol hyd yn oed os parheir i wasanaethu ar ôl hynny.

4. **Telerau pensiwn:** Cynigir pensiwn gyda'r swydd. Penderfynir ar fuddion pensiwn dan ddarpariaethau Deddf Ymddeoliadau a Phensiynau Barnwrol 1993. Er bod aelodaeth o'r cynllun pensiwn barnwrol yn awtomatig adeg penodi, nid yw'n orfodol, a gall y sawl sy'n dal swydd farnwrol ddewis peidio â bod yn rhan o'r cynllun. Dan Ddeddf Ymddeoliadau a Phensiynau Barnwrol 1993, mae pensiwn yn daladwy cyn gynted ag y byddir yn cyrraedd 65 oed, cyn belled ag y bo'r sawl sy'n dal swydd wedi cwblhau o leiaf 5 mlynedd o wasanaeth. Bydd cyfradd flynyddol y pensiwn yn 1/40 o gyflog pensiynadwy deilydd y swydd wedi'i luosi â hyd y cyfnod gwasanaeth mewn swydd farnwrol gymwys (wedi'i fynegi mewn blynyddoedd a ffracsiynau o flynyddoedd), yn amodol ar uchafswm pensiwn sy'n cyfateb i hanner y cyflog pensiynadwy ar ôl 20 mlynedd neu fwy o wasanaeth. Mae pensiwn sydd wedi'i ostwng yn actiwaraidd yn daladwy cyn gynted ag y bo'r deilydd swydd yn ymddeol, ar ôl cwblhau o leiaf 5 mlynedd o wasanaeth, ac ar ôl cyrraedd 60 oed ond cyn cyrraedd 65 oed. Pan fo'n rhaid i'r deilydd swydd ymddeol ar sail iechyd cyn cyrraedd 65 oed, ychwanegir cyfnod sy'n cyfateb i hanner y gwasanaeth y byddai ef neu hi, fel arall, wedi'i gwblhau at ei gyfnod o wasanaeth, o'r diwrnod yn dilyn ei h/ymddeoliad hyd at ei ph/ben-blwydd yn 65 oed.

5. Yn ychwanegol at y pensiwn, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 2.25 gwaith cyfradd flynyddol y pensiwn hwnnw hefyd yn daladwy. Telir pensiwn priod ar gyfradd o hanner y pensiwn personol sy'n cronni neu'n cael ei dalu adeg marwolaeth ac mae yna ddarpariaeth ar gyfer pensiwn plant. Os yw deilydd swydd yn marw wrth wasanaethu, ceir darpariaeth ar gyfer budd-dâl marwolaeth sy'n cyfateb i ddwywaith swm tâl y deilydd swydd sy'n destun pensiwn. Mae cyfraniadau tuag at bensiynau priod a phlant yn orfodol i bob Cadeirydd Rhanbarthol cyflogedig ac fe'u gwneir ar ffurf taliadau misol o 1.8% o'r

cyflog a gapiwyd at ddibenion pensiwn. Mae pensiynau a delir eisoes yn destun codiadau dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971. Mae buddion yn daladwy i bartner sifil sy'n goroesi ar farwolaeth deilydd swydd farnwrol sydd wedi ffurfio partneriaeth sifil yn unol â Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

6. Mae'r cynllun pensiwn barnwrol yn gynllun "heb ei gofrestru" at ddibenion Deddf Cyllid 2004. Mae hyn yn golygu na fydd buddion dan y cynllun yn cyfrif tuag at y lwfans oes ar gyfer buddion pensiwn dan y Ddeddf honno, ond nad yw buddion a chyfraniadau dano'n denu gostyngiad treth incwm; o'r herwydd y mae buddion ar ffurf cyfandaliadau'n ddarostyngedig i dreth incwm ar gyfradd ymylol y deilydd swydd. Bydd yr atebolrwydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol neu'n llawn drwy dalu dyfarniad gwasanaeth ar wahân i'r deilydd swydd wrth ymddeol. Mae mwy o fanylion ar gael ar gais.

7. **Gofynion eistedd:** Mae gan Gadeirydd Rhanbarthol hawl i gymryd 30 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus a braint. Dylid trefnu gwyliau blynyddol gyda'r Llywydd. Oherwydd y pwysau gwaith ar y Tribiwnlys, ystyria'r Arglwydd Ganghellor ei bod yn hanfodol bod y Cadeirydd Rhanbarthol ar gael i fynychu'r ganolfan gwrandawiadau am 5 diwrnod ym mhob wythnos neu, fel arall, i ymgymryd â busnes barnwrol yn ystod y 5 diwrnod hynny yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywydd.

8. **Absenoldeb oherwydd salwch:** Mae'n ofynnol i Gadeirydd Rhanbarthol hysbysu'r Llywydd am unrhyw absenoldeb oherwydd salwch, fel y gellir gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer eu heisteddiadau, trwy benodi dirprwyon neu fel arall. Dylent hefyd roi gwybod i'r Llywydd am ba hyd y maent yn debygol o fod yn absennol oherwydd salwch. Er nad oes dim penodol wedi'i nodi o ran absenoldeb salwch, yr ymarfer yw defnyddio'r un amodau â'r rhai ar gyfer gweision sifil. Mae'r rhain yn darparu, yn fras, y gall Cadeirydd Rhanbarthol dderbyn 6 mis o absenoldeb salwch ar gyflog llawn yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis ac, yn dilyn hynny, absenoldeb salwch ar hanner cyflog, yn amodol ar gyfanswm o 12 mis o absenoldeb salwch mewn unrhyw gyfnod o 4 blynedd neu lai; cyn belled ag y bo rhagolygon rhesymol y bydd yn dychwelyd at ei ddyletswydd yn y pen draw.

9. **Daliadaeth:** O dan ddarpariaethau Deddf Pensiynau ac Ymddeoliad Barnwyr 1993, bydd gofyn fel arfer i Gadeirydd Rhanbarthol ymadael â'i swydd ar ei ben-blwydd yn 70 oed (a.26 Deddf 1993). Bydd deilydd swydd farnwrol gyflogedig a benodwyd cyn i Ddeddf Pensiynau ac Ymddeoliad Barnwyr 1993 ddod i rym (31 Mawrth 1995) yn cadw'r oedran ymddeol gorfodol a oedd yn berthnasol iddo neu iddi yn y swydd flaenorol. Caiff yr Arglwydd Ganghellor ddiswyddo Cadeirydd Rhanbarthol ar sail anallu neu gamymddwyn. Mae angen cydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus ar gyfer unrhyw ddiswyddiad o'r fath. Caiff Cadeirydd Rhanbarthol ymddiswyddo o'i swydd unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Arglwydd Ganghellor.

10. **Hyfforddiant:** Caiff unrhyw hyfforddiant ei drefnu a'i bennu gan y Llywydd.

11. **Preswylfan:** Rhaid i Gadeirydd Rhanbarthol fyw o fewn pellter teithio rhesymol i'r lleoliadau lle y bydd yn eistedd.

12. **Lwfansau teithio ayb:** Mae'n bosib y bydd costau teithio a, dan rai amgylchiadau, lwfansau cynhaliaeth dros nos, yn daladwy yng nghyswllt eisteddiadau, mynychu cyrsiau hyfforddi, ayb. Bydd manylion y rheolau sy'n pennu'r lwfansau hyn ar gael gan staff y Tribiwnlys. Mae'n bosibl y bydd rheolau a chyfraddau'r lwfansau hyn yn newid o bryd i'w gilydd, a rhoddir gwybod ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd rheolau treth Cyllid a Thollau EM sy'n pennu'r ffordd y caiff y lwfansau hyn eu trin o safbwynt treth a chyfraddau'r lwfansau, yn newid, a rhoddir gwybod i ddeiliaid swydd ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath.

13. **Y gost o ymgymryd â phenodiad:** Nid oes unrhyw gymorth ar gael o arian cyhoeddus tuag at unrhyw gostau a wynebir (e.e. drwy symud tŷ) pan benodir unigolyn yn Gadeirydd Tribiwnlys cyflogedig. Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol, mae gan y sawl sy'n dal swydd farnwrol ar y pryd hawl i dreuliau adleoli os bydd yn rhaid iddo symud tŷ o ganlyniad i'r penodiad hwnnw.

14. **Gweithgareddau a diddordebau allanol:** Ni ddylai Cadeirydd Rhanbarthol gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch mewn unrhyw ffordd a allai danseilio, neu y gellid tybio o fewn rheswm ei fod yn tanseilio, ei h/annibyniaeth neu ddidueddrwydd barnwrol. Rhaid iddo/iddi ddisgwyl rhoi heibio unrhyw weithgarwch gwleidyddol a bod yn wyliadwrus rhag unrhyw amgylchiadau a gyfyd lle gellid tybio bod eu cyfraniad at unrhyw weithgarwch allanol yn bwrw amheuaeth ar eu didueddrwydd barnwrol neu'n gwrthdaro gyda'r swydd farnwrol. Bydd disgwyl i unigolyn sy'n gyfarwyddwr cwmni masnachol roi'r gorau i hynny pan y'i penodir i swydd farnwrol gyflogedig. Bydd disgwyl i Gadeirydd Rhanbarthol hefyd gyflwyno ei h/ymddiswyddiad i'r Arglwydd Ganghellor pe digwydd iddo ef/hi gael ei h/enwebu neu'i m/fabwysiadu yn ddarpar-ymgeisydd i'w h/ethol i'r Senedd, neu i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gogledd Iwerddon neu Senedd Ewrop.

15. **Y Seiri Rhyddion:** Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar y Seiri Rhyddion yn yr Heddlu ac yn y Farnwriaeth, gofynnir i unrhyw un a benodir am y tro cyntaf i swydd farnwrol, fel un o amodau eu penodi, a ydynt yn perthyn i'r Seiri Rhyddion ac, os nad ydynt, eu bod yn rhoi gwybod i'r Arglwydd Ganghellor pe baent yn ymuno â'r Seiri Rhyddion ar ôl hynny. Rhaid i'r rhai sy'n dal swyddi barnwrol ddisgwyl y bydd y wybodaeth hon, o bosibl, yn ymddangos yn y gofrestr gyhoeddus.

16. **Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu:** Mae gan ddeiliaid swydd farnwrol hawl i absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu. Darperir manylion gweithredu'r hawliadau hyn i'r swydd-ddeiliad fel sy'n briodol.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Hydref 2008